Cofnodion cyfarfod y **PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU** a gynhaliwyd o bell drwy fideogynhadledd
**ddydd Mercher, 12 Ionawr 2022**

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Lynford Thomas (Cadeirydd), John Adams-Lewis, Bryan Davies, Ceredig Davies, Gethin Davies, Ifan Davies, Meirion Davies, Odwyn Davies, Peter Davies MBE, Rhodri Davies, Dafydd Edwards, Rhodri Evans, Catherine Hughes, Gwyn James, Maldwyn Lewis, Gareth Lloyd, Lyndon Lloyd MBE, Dai Mason, Rowland Rees-Evans a Wyn Thomas

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd Endaf Edwards

**Swyddogion yn bresennol:** Mr Russell Hughes-Pickering, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio, Mr Alan Davies, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cynllunio, Mrs Catrin Newbold, Rheolwr Gwasanaeth – Rheoli Datblygu, Mr Jonathan Eirug – Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu'r Gogledd, Ms Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Democrataidd, Mrs Sian Holder, Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu'r De, Mrs Margaret James, Uwch-beiriannydd Datblygu Priffyrdd, Ms Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, a Mrs Dana Jones, Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Safonau

(10:00am – 12:00pm)

1 **Personol**
Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Estynnwyd dymuniadau gorau i Mrs Margaret James, Uwch-beiriannydd Datblygu Priffyrdd, ar ei hymddeoliad, a diolchwyd iddi am ei 44 mlynedd o wasanaeth i'r Cyngor.

2 **Ymddiheuriadau**
Roedd y Cynghorydd Paul Hinge wedi ymddiheuro am nad oedd modd iddo ddod i'r cyfarfod.

3 **Datgan buddiannau personol a/neu fuddiannau sy'n rhagfarnu**
Dim.

4 **Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 08 Rhagfyr 2021**
**PENDERFYNWYD** cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 08 Rhagfyr 2021 yn gywir.

**Materion yn codi**
Dim.

5 **Ceisiadau cynllunio a ohiriwyd yng nghyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor**
Dim.

6 **Ceisiadau datblygu, hysbysebu, statudol a'r awdurdod lleol**
Trafodwyd adroddiad Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio ynghylch ceisiadau datblygu, hysbysebu, statudol a'r awdurdod lleol:-

Bu i Mr Colin Jones (Ymgeisydd) annerch y Pwyllgor yn unol â'r atodiad dros dro i'r weithdrefn weithredol sy'n caniatáu i'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn sgil COVID-19.

A210129 Defnyddio carafán fel llety gwyliau, Pantyperan, Llandre

**CYMERADWYO'R** cais yn ddibynnol ar i'r garafán gael ei gorchuddio er mwyn iddi edrych yn debyg i gaban pren.

Nid oedd yr Aelodau'n cytuno ag argymhelliad y swyddogion ac roeddent yn tybio bod modd cymeradwyo'r cais am y rhesymau a ganlyn:-

- Roedd y cais yn cydymffurfio â pharagraffau 3.7.1, 3.7.2 a 6.3.1 polisi mentrau gwledig TAN 6 gan fod yr ymgeisydd am arallgyfeirio'i fferm;
- Roedd y cais yn bodloni paragraffau 5.4.1, 5.5, 5.5.1, 5.5.2, 5.5.6, 5.61, 5.62 a 5.160 Polisi Cynllunio Cymru;
- Roedd y cais yn bodloni polisi LU14;
- Roedd y garafán wedi bod yn y lleoliad hwn am ugain mlynedd, a rhagwelir y byddai cais i gael tystysgrif cyfreithlondeb yn cael ei gymeradwyo pe bai'r ymgeisydd yn cyflwyno cais o'r fath;
- Mae'r cais yn cydymffurfio â Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor Sir o ran hybu twristiaeth yn y sir;
- Mae'r garafán o fewn cwrtil y fferm ac nid mewn cae agored, felly nid yw'n cael effaith weledol ar y dirwedd.

---

A210699 Addasu tŷ amlfeddiannaeth trillawr mawr â saith ystafell wely yn bedair uned breswyl hunangynhwysol, gan gynnwys gwaith dymchwel, gwella ac adnewyddu a gwaith cysylltiedig, 14 Rhes Rheidol, Aberystwyth

**CYMERADWYO'R** cais yn ddibynnol ar amodau.

---

A210712 Newid defnydd cae amaethyddol i leoli tri phod gwersylla a gwaith cysylltiedig ar gyfer llety gwyliau, Llys Meurig, Penrhyn-coch, Aberystwyth

**GOHIRIO'R** penderfyniad ar y cais i sicrhau bod modd cael trafodaeth bellach â'r ymgeisydd o ran lleoliad y pod gwyliau a leolir ar ael y cae. Caniateir i Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio gymeradwyo'r cais os ceir cytundeb, a bydd y Pwyllgor yn ailystyried y cais os na cheir cytundeb.

---

Bu i Mr Oliver Davies (Ymgeisydd) annerch y Pwyllgor yn unol â'r atodiad dros dro i'r weithdrefn weithredol sy'n caniatáu i'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn sgil COVID-19.

A210722 Byngalo ymddeol arfaethedig, Garej Bayview, Parc-llyn, Aberteifi

**GOHIRIO'R** penderfyniad ar y cais am fis i ganiatáu 'cyfnod callio' a mwy o amser i ystyried y pwyntiau a godwyd gan yr Aelodau.

---

7 **Ceisiadau cynllunio y bu i Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio ymdrin â nhw:-**

PENDERFYNWYD nodi'r rhestr o geisiadau cynllunio y bu i Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio ymdrin â nhw.

8 **Apeliadau cynllunio**

CYTUNWYD i nodi'r wybodaeth a oedd wedi dod i law am apeliadau.

**Cadarnhawyd y cofnodion yng nghyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 09 Chwefror 2022**

**Cadeirydd:-**____________________

**Dyddiad:**______________________